# 3. Nadolig Urdd Gobaith Cymru

Llefarydd: Byddaf ffyddlon i Gymru a theilwng ohoni,
Byddaf ffyddlon i'm cyd-ddyn pwy bynnag y bo,
Byddaf ffyddlon i Grist a'i gariad ef.
Er pan drefnwyd taith o aelodau'r Urdd o Gymru i bencadlys Cynghrair y Cenhedloedd yng Ngenefa dan arweiniad Syr Ifan ab Owen Edwards yn 1930, mae heddwch byd wedi bod yn un o brif ddyheadau Mudiad yr Urdd. Trefnwyd degau ar ddegau o wahanol deithiau cydwladol i ledaenu cyfeillgarwch, ac anfonwyd Neges Ewyllys Da gan yr Urdd yn flynyddol i saith deg pump o wledydd bach a mawr y byd.
Heddiw, gadewch i ni ddathlu drwy ddiolch am waith yr Urdd o blaid heddwch a thrwy ymgysegru o'r newydd i ddod i gymod â Duw yn bersonol, fel unigolion, drwy dderbyn Iesu Grist i'n calonnau ac i ddod i gymod â'n gilydd fel pobloedd byd yn ei enw a'i nerth ef.
Clywch eto neges yr angylion:

Angylion: 'Gogoniant yn y Goruchaf i Dduw ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da.'

Llefarydd: Gŵyl o gân a mawl diddiwedd,
Gŵyl o gariad a thrugaredd,
Gŵyl lawn gobaith am i ddynion
Fyw mewn undeb a thangnefedd.
Do, carodd Duw y byd cymaint nes iddo roi ei unig fab er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol. Oherwydd, nid i gondemnio'r byd yr anfonodd Duw ei fab i'r byd, ond er mwyn i'r byd gael ei achub trwyddo ef.

Darlleniad: 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair ...'
(Ioan 1:1–14)

Darlleniad rhwng 2:

A. Yna llefarodd Iesu wrthynt eto: 'Myfi yw goleuni'r byd,' meddai.

B. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi'i drechu ef.

A. A dyna'r condemniad, i'r goleuni ddod i'r byd ond i ddynion garu'r tywyllwch yn hytrach na'r goleuni, am fod eu gweithredoedd yn ddrwg.

B. Tywyllwch oeddech chi gynt, ond yn awr goleuni ydych yn yr Arglwydd. Byddwch fyw fel plant y goleuni oherwydd gwelir ffrwyth y goleuni ymhob daioni, a chyfiawnder a gwirionedd.

A. Yr hwn sy'n dweud ei fod yn y goleuni, ac yn casáu ei frawd, yn y tywyllwch y mae o hyd. Y mae'r hwn sy'n caru ei frawd yn aros yn y goleuni ac nid oes dim ynddo i faglu neb.

Hawlfraint **Cyhoeddiadau'r Gair** www.ysgolsul.com 

B. Gadewch i ni, felly, roi heibio gweithredoedd y tywyllwch a gwisgo arfau'r goleuni. Gadewch i ni fyw yn weddus, fel yng ngolau dydd.

Gweddi: O Dduw ein Tad Tragwyddol, bu i ti drwy genedlaethau lawer, baratoi'r ffordd yn ein byd ar gyfer dyfodiad dy fab Iesu, a heddiw, drwy dy Ysbryd Glân yr wyt ti'n dwyn goleuni'r efengyl i mewn i fywydau'r rhai sydd mewn tywyllwch. Gweddïwn am i ti orchfygu'r tywyllwch yn ein bywydau ni'r noson hon â golau dy bresenoldeb fel y gwelwn yn glir y ffordd i rodio; y gwir i'w lefaru a'r bywyd y dylem ei fyw yn unol â'th ewyllys glân a sanctaidd.

Adnewydda ni, fel y gallwn groesawu Iesu Grist o'r newydd i fod yn Arglwydd ein bywydau. Cynorthwya ni, fel Mair, i feddwl yn ddwys ynglŷn ag ystyr ei ddyfodiad atom.

Llenwa ni â chariad ac â rhyfeddod, fel y bugeiliaid a'r doethion, i'n galluogi heno i addoli'r baban sanctaidd, ac i offrymu ein rhoddion iddo.

Rhoddaist ti gymaint i ni. Cynorthwya ni i roi'r hyn a allwn i'r rhai sydd mewn angen, yn arbennig yn ystod gŵyl y Nadolig. Helpa ni i wasgaru goleuni, cariad, heddwch a llawenydd yn y byd drwy'r hyn a wnawn a'r hyn a ddywedwn.

O! Dduw, 'boed i eraill trwom ni adnabod cariad Duw'. Er mwyn dy enw bendigedig. Amen.

Llefarydd: Am hynny, yr Arglwydd ei hun a ddyry i chwi arwydd. Wele forwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab ac a eilw ei enw ef Emaniwel. Y bobl a rodiasant mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr; y rhai sydd yn aros yn nhir cysgod angau y llewyrchodd goleuni arnynt. Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, tad tragwyddoldeb, tywysog tangnefedd. Ac efe a farna rhwng pobloedd lawer, ac a gerydda genhedloedd cryfion hyd ymhell; a thorrant eu cleddyfau yn sychau, a'u gwaywffyn yn bladuriau; ac ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach. A bu, tra'r oeddynt yno cyflawnwyd y dyddiau i esgor ohoni. A hi a esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig, ac a'i rhwymodd ef mewn cadachau, ac a'i dododd ef yn y preseb, am nad oedd iddynt le yn y llety.

Darlleniad: 'Gweddi', *Agor Grwn*; neu *Cerddi Dic yr Hendre*.

Darlleniad: Luc 2:8–20 (Hanes y bugeiliaid)

Adroddiad:

Pe bawn i'n byw ym Methlehem
Pan aned Baban Mair
Mi garwn innau fynd i'w weld
Yn gorwedd yn y gwair.

Cawn weld y doethion mwyn o bell -
Bob un â'i drysor drud,
Yn dod ag aur a thus a myrr
Yn rhodd i Geidwad byd.

Ac yno plygu glin a wnawn
Mewn gweddi wrth y crud
A diolch wnawn i Dduw am roi
Ei fab yn rhodd i'r byd.

H. T. Roberts
*Clychau'r Nadolig*

Gweddi: O Arglwydd byw, ymgrymwn mewn addoliad o flaen dirgelwch y baban a aned mewn stabl ym Methlehem. Rwyt ti wedi dod i lawr i'n byd ni, yn ddyn ymysg dynion, yn ostyngedig, yn un ohonon ni. Ni allwn ni ei ddeall, ond diolchwn fod yma fynegiant mewn cig a gwaed o'th gariad anfeidrol tuag atom, er mwyn i ni gael bywyd newydd a chariad newydd. Iesu, o'r crud i'r bedd fe dderbyniaist ti bobl fel yr oeddynt, beth bynnag eu cyflwr, a gwnaethost nhw yn bobl newydd.

Gwêl ninnau'r awr, nid ydan ni'r hyn y dylen ni fod – nid oes gennym fawr i'w gynnig, nid ydym yn sicr yn aml beth a gredwn. Gwna dy gartref yn ein bywydau, Arglwydd, hyd yn oed os ydyn nhw mor frwnt ac oer â'r stabl honno. Tyrd i mewn, Arglwydd, a gwna rywbeth ohonon ni, fel y gallwn ninnau hefyd weithio o blaid tangnefedd ac ewyllys da yn dy fyd.
Amen.

Darlleniad: Cydlawenhawn! Fe ddaeth yr Iôr;
Croesawn ein Brenin Mawr!
I galon dyn agorwyd dôr –
O! caned teulu'r llawr.

Cydlawenhawn! Gorseddwyd Iôr,
O! dybled seiniau'r gân
Ar fryn a dôl, dros dir a môr
Gan bawb yn ddiwahân.

Ni phoena'r drain y galon friw
Na chlais, a llidus glwy'
Cans daeth y Crist â'i fendith wiw
I ymlid melltith mwy.

Gras a gwirionedd Crist o'r Ne'
A lywodraetha'r byd
Dan faner ei gyfiawnder Ef
A gwyrth ei gariad drud.

*cyf.* Maurice Loader

**DIWEDD**